PWYLLGOR CRAFFU ADOLYGU POLISI A CHRAFFU PERFFORMIAD

DYDD MERCHER, 1 MAWRTH 2023

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Williams(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Ash-Edwards, Chowdhury, Ferguson-Thorne, Henshaw, Hunt, Thomson a/ac Waldron |

50 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Dim wedi'u derbyn.

51 : DATGAN BUDDIANNAU

Datganodd holl Aelodau'r Pwyllgor fuddiant personol yn eitem 6, fel y cynghorwyd gan y cwnsel, gan fod gan y Cyngor wrthdaro buddiannau fel yr Ymddiriedolwr Corfforaethol a'r Awdurdod Addysg Lleol.

Datganodd y Cynghorydd Hunt fuddiant personol pellach yn eitem 6 gan ei fod yn adnabod aelod o'r panel cynghori, roedd wedi gofyn am gyngor cyfreithiol ar y datganiad hwn.

Datganodd y Cynghorydd Chowdhury fuddiant personol pellach yn eitem 6 gan fod ei mab yn mynychu Ysgol Uwchradd Cathays.

52 : COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Ionawr 2023 fel cofnod cywir.

53 : CYNLLUN CORFFORAETHOL 2023 - 26

Atgoffwyd yr Aelodau bod yr eitem hon yn gyfle i'r Pwyllgor graffu cyn penderfynu ar Gynllun Corfforaethol drafft terfynol 2023-26. Roedd yr Arweinydd a'r uwch dîm rheoli wedi ymgysylltu'n anffurfiol â Phanel Craffu ar Berfformiad y Pwyllgor, sydd yn cynnwys cadeiryddion pob un o'r pum pwyllgor craffu yn ddiweddar, gan ganolbwyntio ar y broses o bennu targedau ar gyfer y Cynllun Corfforaethol. Yn dilyn y drafodaeth, cafodd yr argymhellion, y sylwadau, yr arsylwadau a'r pryderon craffu eu trosglwyddo i'r Arweinydd a derbyniwyd ymateb yn fuan wedi hynny, cyn cyhoeddi drafft terfynol y Cynllun. Atodwyd y materion a godwyd ac ymateb y Cabinet fel atodiadau 2 a 3 i'r eitem hon.

Ar gyfer yr eitem hon, croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Huw Thomas, Arweinydd y Cyngor; Y Cynghorydd Chris Weaver, Aelod Cabinet Cyllid, Moderneiddio a Pherfformiad; Paul Orders, Prif Weithredwr; Sarah McGill, Cyfarwyddwr Corfforaethol Pobl a Chymunedau; Chris Lee, Cyfarwyddwr Corfforaethol, Adnoddau; Gareth Newell, Pennaeth Polisi a Phartneriaethau; a Dylan Owen, Rheolwr Polisi a Gwella.

Gwahoddodd y Cadeirydd y Cynghorydd Thomas a’r Prif Weithredwr i roi datganiadau ac ar ôl hynny gofynnwyd i'r Aelodau am eu sylwadau, eu harsylwadau a'u cwestiynau.

Roedd y Pwyllgor o'r farn bod ychwanegiadau bach i'r Cynllun Corfforaethol a fyddai'n gwella ei gyflwyniad fel dogfen gyhoeddus. Roedd yr Aelodau o'r farn y byddai ychwanegu colofn yn yr adran Dangosydd Perfformiad Allweddol (DPA) yn nodi'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn flaenorol, yn galluogi cymhariaeth â thargedau a chynnydd perfformiad yn y dyfodol. Nododd yr Aelodau fod ganddynt fynediad i'r Dangosfwrdd Perfformiad Corfforaethol, ac y byddai Swyddogion yn cynnal sesiynau hyfforddi i'r Aelodau ar hyn, fodd bynnag, nid oes gan y cyhoedd fynediad o'r fath. Dywedodd swyddogion y byddent yn adolygu hyn ond eu bod yn awyddus i gael cydbwysedd rhwng eglurder a manylion.

Gweithio ar Draws Cyfarwyddiaethau

Roedd yr aelodau o'r farn bod y Cynllun Corfforaethol yn ddarn da o waith ond yn annog Swyddogion i osgoi cronni seilos, ac y byddai adlewyrchu mwy o waith ar draws cyfarwyddiaethau yn gwella'r cynllun ymhellach.

Gwasanaethau Cynghori

Tynnodd y Pwyllgor sylw at yr angen am wasanaethau cynghori o ansawdd da ledled y ddinas, o ystyried yr hinsawdd bresennol o ran costau byw. Nododd yr Aelodau fod y Cyngor wedi gweld cynnydd sylweddol yn y galw am ei wasanaethau i mewn i waith a chyngor ariannol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, wrth i fwy o bobl ddod yn gymwys i gael cymorth. Roedd yr aelodau hefyd yn falch o glywed bod gwaith wedi bod gyda'n partneriaid i symleiddio'r porth i wasanaethau cynghori. Dywedodd swyddogion fod Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymunedol ac Oedolion wedi tynnu sylw at bryderon tebyg gan fod darpariaeth gwasanaethau trwy sefydliadau'r trydydd sector wedi gostwng dros y blynyddoedd diwethaf. Cynigiodd Swyddogion ddychwelyd i'r pwyllgor i roi dealltwriaeth well o'r galw am wasanaethau cynghori sydd ar gael ledled y ddinas a'u darpariaeth.

Gwydnwch y Gweithlu

Gofynnodd yr aelodau a oedd Swyddogion yn hyderus bod staff yn ymdopi â'r gofynion lle mae gostyngiadau yn y lefelau staffio. Roedd yr Aelodau'n falch o glywed bod ffurfioli gwirfoddoli fel cyfle yn y gweithle wedi bod yn llwyddiant mawr mewn meysydd fel llyfrgelloedd, a thrwy weithgareddau fel casglu sbwriel wrth i'r Cyngor gamu i’r adwy yn ei rôl fel hwylusydd cymunedau gwell.

Clywodd y Pwyllgor fod y cynigion lleihau nifer y staff cyfwerth ag amser llawn yn y gyllideb yn cyd-fynd â chyflawni’r Cynllun Corfforaethol, a bod achosion busnes dros bob cynnig diswyddo gwirfoddol yn fater o broses. Roedd yr Aelodau'n pryderu bod gweithlu sydd dan bwysau yn fygythiad i wydnwch y Cyngor ac yn awyddus i sicrhau bod mesurau lles priodol ar waith i liniaru straen diangen yn y gweithle. Roedd Swyddogion yn cydnabod pwysigrwydd cydnabod staff o ystyried eu rôl hanfodol o ran darparu gwasanaethau llwyddiannus, a bod y gyllideb yn ffactor yn y setliad cyflog llywodraeth leol. Nododd yr Aelodau hefyd fod y Prif Weithredwr o'r farn bod gofal a thrafodaeth briodol ar sut mae arbedion yn cael eu creu.

CYTUNWYD: y byddai’r Cadeirydd, ar ran y Pwyllgor, yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet er mwyn cyfleu arsylwadau’r Pwyllgor wrth drafod y ffordd ymlaen.

54 : CYNIGION CYLLIDEB DDRAFFT AR GYFER 2023 - 24

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Chris Weaver, Aelod Cabinet Cyllid, Moderneiddio a Pherfformiad; Chris Lee, Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau; Sarah McGill, Cyfarwyddwr Corfforaethol, Pobl a Chymunedau; Ian Allwood, Pennaeth Cyllid; Gareth Newell, Rheolwr Partneriaethau ac Ymgysylltu Cymunedol ac Anil Hirani, Rheolwr Gweithredol, Cyfalaf, Corfforaethol a Thrysorlys.

Dywedwyd wrth yr Aelodau, yn unol â Chylch Gorchwyl y Pwyllgor, bod ganddynt gyfrifoldeb i roi trosolwg o gynigion cyllideb *Refeniw a Chyfalaf* o safbwynt corfforaethol a strategol.

Cynigiodd y Cadeirydd rannu craffu ar yr eitem hon o’r gyllideb yn ddwy ran. Yn gyntaf, trosolwg a chwestiynau ar gynigion cyllideb refeniw traws-gorfforaethol 2023/24, ac yna cwestiynau i'r Aelodau ar y rhaglen gyfalaf.

Gwahoddodd y Cadeirydd y Cynghorydd Weaver i wneud datganiad ar gyllideb 2023/24, ac ar ôl hynny rhoddodd Swyddogion drosolwg corfforaethol byr o'r Gyllideb Refeniw Gorfforaethol. Wedyn gofynnwyd i'r Aelodau am eu sylwadau, eu harsylwadau a'u cwestiynau.

Cyllideb Refeniw

Gwnaeth y Pwyllgor nifer o arsylwadau. Nodwyd yr ymatebion canlynol:

• Ffioedd a Thaliadau - bod y cynnydd mewn Ffioedd a Thaliadau ar gyfer Gwasanaethau'r Cyngor yn cael eu harwain yn bennaf gan y meysydd gwasanaeth eu hunain.

• Prisiau Ynni – nod y gyllideb arfaethedig yw gwrthbwyso'r anwadalrwydd a wynebir mewn perthynas â phrisiau ynni. Mae swyddogion cyllid wedi gwneud rhagamcanion gorau gwobydus, ac mae'r Cyngor yn prynu ynni ymlaen llaw lle bo hynny'n bosibl.

• Chwyddiant - bydd adroddiadau monitro cyllideb rheolaidd y Cyngor trwy gydol y flwyddyn yn sicrhau bod chwyddiant yn cael ei ystyried yn ei wydnwch ariannol. Fodd bynnag, bydd cynnydd parhaus mewn chwyddiant yn effeithio ar y gyllideb.

• Cyllid Grant – mae pob Cyfarwyddiaeth yn parhau i fod yn ymwybodol iawn o'u sefyllfa cyllid grant ac mae'r Cyngor yn manteisio ar gyllid grant lle bynnag y bo modd.

• Mae Cronfa Wrth Gefn Covid (£10m) wedi cael ei hailalinio.

Modelu ariannol

Gofynnodd yr Aelodau am sicrwydd bod y modelu ariannol a ddefnyddir i bennu'r gyllideb a ddyrannir i Gyfarwyddiaethau yn effeithiol, yn enwedig mewn perthynas â gwasanaethau a arweinir gan alw. Nododd yr Aelodau fod y gwasanaeth Cyllid yn gweithio'n agos gyda'r holl Gyfarwyddiaethau, yn modelu sefyllfaoedd gwahanol ac yn sicrhau bod cynlluniau wrth gefn yn cael eu rhoi ar waith, yn enwedig ar gyfer y Cyfarwyddiaethau Gwasanaethau Oedolion a Phlant.

Treth Gyngor

Roedd yr Aelodau o blaid cadw'r cynnydd yn y Dreth Gyngor islaw cyfradd chwyddiant a nodwyd y cydbwysedd anodd i'w gyrraedd a bod lefel y cynnydd yn ddibynnol ar y bwlch yn y gyllideb. O ran cyfraddau Casglu'r Dreth Gyngor, nododd yr Aelodau fod prosesau symlach bellach ar waith sy'n arwain at gyfradd gasglu uwch.

Goblygiadau i Weithwyr

Amlygodd yr Aelodau fod y rhan fwyaf o arbedion cyllideb y Cyngor yn cael eu gwneud trwy golli staff a nodwyd bod y gostyngiad yn yr aelodau o staff yn y gyllideb hon yn fwy nag yn y blynyddoedd blaenorol.  Nododd yr Aelodau hefyd fod swyddogion yn ystyried bod yn rhaid llenwi rhai swyddi gwag.

Mynegodd yr Aelodau bryder am les staff ac roeddent o'r farn bod yn rhaid cynnal lefel o brofiad ymhlith staff ar draws Cyfarwyddiaethau.

Cronfeydd Wrth Gefn Cyffredinol a Chlustnodedig

Gofynnodd y Pwyllgor am sicrwydd bod lefel y cronfeydd wrth gefn sydd gan y Cyngor yn briodol. Dywedodd Swyddogion nad yw Archwilio Cymru yn cyhoeddi ffigur a argymhellir y maent yn ei ystyried yn briodol ar gyfer cronfeydd wrth gefn, roedd yr Aelodau'n falch o glywed bod lefel y cronfeydd wrth gefn clustnodedig wedi cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf ac mae'r swyddog adran 151 yn gyfforddus â'r lefel bresennol o gronfeydd wrth gefn.

Ymgynghoriad ar y Gyllideb

Nododd y Pwyllgor fod ymateb y Cabinet pan fydd y cyhoedd yn ymateb yn negyddol i gynnig ymgynghori ar y gyllideb yn seiliedig ar ei flaenoriaethau sydd wedi eu datgan. Cyfeiriodd swyddogion at enghreifftiau penodol - amseroedd agor byrrach llyfrgelloedd, a phrisiau ail drwydded parcio preswyl - lle'r oedd barn y cyhoedd yn rhanedig a bod y cyntaf yn cael ei wrthod tra bod yr olaf yn cael ei dderbyn.

Eglurodd yr Aelodau nad oedd yr Arena Dan Do yn rhan o'r ymgynghoriad ar y gyllideb gan nad yw'n gynnig newydd. Roedd yr Aelodau'n awyddus i sefydlu y byddai'r prosiect datblygu hwn yn gost niwtral i'r Cyngor a nodwyd y byddai dyraniad cyfalaf cychwynnol o £27m wedi ei ariannu gan dderbynebau cyfalaf clustnodedig yn galluogi dechrau'r prosiect, ac wedi hynny byddai'r lleoliad yn hunan-ariannu trwy gytundeb gweithredwr ac mae'n brosiect buddsoddi i arbed.

Cyllideb Cyfalaf

Atgoffwyd y Pwyllgor bod benthyca i ariannu ymrwymiadau Cyfalaf yn ymrwymiad cyffredinol i'r Cyngor yn hytrach nag yn ôl prosiect unigol. Rhoddwyd sicrwydd i'r Aelodau fod y Cyngor yn cael cyngor allanol i sicrhau ei strategaeth ad-dalu cyfalaf i dalu £870 miliwn o ymrwymiadau dros y 3-4 blynedd nesaf. Nododd yr Aelodau fod effaith hyn ar y gyllideb Refeniw oddeutu £34 miliwn y flwyddyn. Rhoddwyd sicrwydd i'r Aelodau mai cyflwyno achosion busnes yw'r sylfaen ar gyfer gwneud penderfyniadau, a bod trefniadau llywodraethu ffurfiol ar waith trwy'r Strategaeth Rheoli Trysorlys, a oruchwylir gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

CYTUNWYD: y byddai'r Cadeirydd, ar ran y Pwyllgor, yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet er mwyn cyfleu arsylwadau'r Pwyllgor wrth drafod y ffordd ymlaen.

## 55 : PWYLLGOR CYNGHORI YMDDIRIEDOLAETH PARC MAENDY

Dywedodd y Cadeirydd wrth yr Aelodau fod hwn yn gyfle i graffu cyn penderfynu ar y broses ac yna Pwyllgor Cynghori Ymddiriedolaeth Parc Maendy i symud y mater arfaethedig o gyfnewid tir ym Mharc Maendy, sydd mewn Ymddiriedolaeth gan y Cyngor, am dir yng Nghae Delyn ymlaen, ac argymhellion y Pwyllgor i'r Cabinet.

Roedd yr Aelodau wedi craffu ar y trefniadau gwneud penderfyniadau ar y mater hwn o'r blaen ac roedd y Cadeirydd wedi gofyn yn benodol i argymhellion y Panel Cynghori ddod yn ôl i'r Pwyllgor cyn i'r Cabinet eu hystyried.

Penododd y Cyngor Bwyllgor Cynghori annibynnol Ymddiriedolaeth Parc Maendy i adolygu'r cyfnewid tir arfaethedig. Mae'r Pwyllgor Cynghori bellach wedi cwblhau ei ymchwiliadau a'r casglu tystiolaeth gan randdeiliaid mewnol ac allanol, wedi cyhoeddi ei benderfyniad ac mae'n gwneud argymhellion i'r Cabinet fel unig Ymddiriedolwr Ymddiriedolaeth Parc Maendy.

Mae'r Pwyllgor Cynghori wedi dod i'r casgliad bod y cynnig i gyfnewid tir Parc Maendy am y tir ym Mharc Cae Delyn *er budd* yr elusen, *yn amodol ar gydymffurfio â nifer o amodau.*

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Ashley Lister, Aelod Cabinet, Gwasanaethau Cymdeithasol (Plant). Mae'r Cynghorydd Lister yn cael ei ystyried yn Aelod Cabinet heb wrthdaro ar y mater hwn. Fel Aelod Cabinet newydd yn y weinyddiaeth hon yn 2022, nid yw wedi cael unrhyw gyfranogiad blaenorol, na buddiant personol, yng nghynigion datblygu'r Cyngor ynghylch Parc Maendy.

Croesawodd y Cadeirydd Davina Fiore hefyd, Cyfarwyddwr Llywodraethiant a Gwasanaethau Cyfreithiol*;* Jason Bartlett, Cadeirydd Pwyllgor Cynghori Maendy; a Harriet Morgan, Cyfreithwyr Geldards. Gwahoddodd y Cadeirydd y Cynghorydd Lister i wneud datganiad a gwahoddwyd Mr Bartlett i grynhoi canfyddiadau'r Panel Cynghori.

Cyfeiriodd yr aelodau at y cynigion ar gyfer Ysgol Uwchradd Cathays a cheisio sicrwydd nad oedd y cyfnewid tir yn fait accompli. Sicrhaodd Swyddogion yr Aelodau nad oedd y Cabinet wedi bod o dan unrhyw bwysau i gyrraedd canlyniad penodol, bu annibyniaeth lwyr a cheisiwyd cyngor allanol fel na ellid cael unrhyw honiadau o ddylanwad amhriodol.

Wrth drafod yr adroddiad prisio, sicrhaodd Swyddogion yr Aelodau y byddai'r cyfnewid tir er budd yr Elusen, ac y byddai rhywfaint o dir ym Maendy yn parhau dan reolaeth Elusen fel y gallai mwy o bobl yng Nghaerdydd ddefnyddio tir yr Elusen. Rhoddwyd sicrwydd i'r Aelodau hefyd bod yr adroddiad prisio wedi'i baratoi gan arbenigwr, ac roedd prisiwr annibynnol wedi mynychu'r holl gyfarfodydd ac wedi ateb llawer o gwestiynau.

Cyfeiriodd yr aelodau at Caedelyn yn gweithredu fel dull amddiffyn rhag llifogydd. Rhoddwyd gwybod i'r aelodau bod hyn wedi cael ei ystyried yn fanwl a bod amod wedi'i drefnu o amgylch draenio.

Cafwyd trafodaeth am orswm ar y tir ym Maendy  Roedd cyfamod cyfyngu ar y tir a gedwir mewn ymddiriedolaeth a gellir ei ddefnyddio at ddefnydd hamdden yn unig. Mae gan y Cyngor bwerau statudol i oresgyn hyn, ond mae'r gorswm am 75 mlynedd gan mai dyma rychwant oes adeilad ysgol ar yr adeg y cafodd ei ychwanegu.

Gofynnodd yr Aelodau am gadarnhad o union arwynebedd tir Caedelyn a gynigiwyd fel cyfnewid am dir ym Maendy ac a yw'n ffurfio Caedelyn i gyd neu ran ohono. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau y byddai'r wybodaeth hon yn cael ei cheisio a'i darparu ar ôl y cyfarfod.

Gofynnodd yr Aelodau am yr ystadegau troseddu a adroddwyd i'r Panel ar gyfer yr ardal arfaethedig o dir sy'n cael ei gyfnewid, a gofynnwyd am wneud hyn ar gael i'r cyhoedd.  Dywedwyd wrth yr Aelodau y byddai hyn yn cael ei ddarparu.

Gofynnodd yr Aelodau pam yr ychwanegwyd amod 5 a dywedwyd wrthynt mai i adlewyrchu'r pwysigrwydd y mae'r Cyfarwyddwr Llywodraethiant a Gwasanaethau Cyfreithiol a'r Pwyllgor Ymgynghorol yn ei roi ar y pwynt oedd hyn, gan werthfawrogi pa mor anodd a gofidus y bu i'r gwrthwynebwyr ac i sicrhau nad yw'n digwydd eto.

Trafododd yr Aelodau hygyrchedd y ddau safle a dywedwyd wrthynt fod y panel, ar ôl clywed y gwrthwynebiadau llafar, wedi ymweld â'r safleoedd ac yn ystyried y byddai Caedelyn yn briodol pe bai gwaith adfer yn cael ei wneud i'w wneud yn fwy hygyrch. Byddai rhai gwelliannau hefyd yn cael eu gwneud i dir Maendy i'w wneud yn fwy hygyrch.

Trafododd yr Aelodau Lywodraethiant a buddiolwyr a dywedwyd wrthynt bod y cyfamod gwreiddiol tua 1919 ac nad oedd unrhyw gyfyngiadau arno, yn ddiweddarach, 1988, ystyriwyd mai pobl Caerdydd ddylai'r buddiolwyr fod a dyna a drafodwyd gyda'r Comisiwn Elusennau.  Cafwyd trafodaeth bellach ynghylch Caerdydd yn cael ei hadeiladu allan ers y dyddiadau hyn.

Gofynnodd yr Aelodau am eglurhad ar y defnydd cyfredol o dir Caedelyn a pha ran ohono oedd yn cael ei gynnwys yn y cyfnewid.  Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau mai'r defnydd presennol yw rhai caeau a mannau hamdden/cerdded fyddai'n parhau i'r rhai sy'n eu defnyddio ar hyn o bryd.  Byddai'r manylion ynghylch pa ran o'r tir fyddai'n cael ei chyfnewid yn cael eu hegluro a'u rhoi i'r Aelodau.

Nododd yr Aelodau yr argymhelliad y dylid adeiladu'r felodrom newydd ac y dylai fod yn weithredol cyn i'r cyfnewid ddigwydd a gofynnwyd pam.  Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau ei fod i sicrhau nad oedd bwlch yn y ddarpariaeth.

Gofynnodd yr aelodau a oedd unrhyw oblygiadau treth i'r cyfnewid tir a dywedwyd wrthynt nad oedd dim.

Nododd yr Aelodau mai'r unig ddogfen sydd ganddynt yw'r ddogfen drawsgludo wreiddiol a gofynnwyd a oedd unrhyw rai eraill y gallent fod wedi eu cael i wneud eu penderfyniad yn haws.  Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau mai'r ddogfen lywodraethu oedd y ddogfen drawsgludo nad oedd yn anghyffredin ar gyfer rhoddion bryd hynny.

CYTUNWYD: y byddai’r Cadeirydd, ar ran y Pwyllgor, yn ysgrifennu at yr Aelod Cabinet er mwyn cyfleu arsylwadau’r Pwyllgor wrth drafod y ffordd ymlaen.

## 56 : EITEMAU BRYS (OS OES RHAI)

Dim wedi’u derbyn.

## 57 : Y FFORDD YMLAEN

## 58 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

22 Mawrth 2023

Daeth y cyfarfod i ben am 1.25 pm